

Cyngor Ysgolion Sul: Swyddogion Datblygu a Chyfarwyddwr

Rhan o'r weledigaeth wreiddiol oedd sefydlu rhwydwaith o drefnyddion rhanbarthol, ond ni wireddwyd y freuddwyd oherwydd diffyg cyllid. Fodd bynnag, yn dilyn cryn dipyn o waith braenaru, cefnogwyd cynllun i benodi dau swyddog dan nawdd y Swyddfa Gymreig a'r eglwysi, ac yn 1984 penodwyd Miss Angharad Roberts a Miss Delyth Oswy, y naill yn y de a'r llall yn y gogledd. Eu gwaith oedd cydgysylltu ag eglwysi / ysgolion Sul, sefydlu pwyllgorau ymgynghorol mewn ardaloedd, hybu darpariaeth ar gyfer gwaith yr ysgol Sul, trefnu cyrsiau i hyfforddi athrawon ysgol Sul, a hyrwyddo gwaith yr ysgolion Sul yn gyffredinol.

Dilynwyd hwy gan nifer o swyddogion eraill a llwyddwyd i barhau â'r swyddi tan 2006, er bod cefnogaeth y Swyddfa Gymreig wedi dod i ben yn 2001. Dau sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yw'r Parch. Aled Davies a Mr Nigel Davies. Penodwyd y ddau ar yr un diwrnod yn 1989 ac mae Aled yn dal gyda ni, ond mewn rôl wahanol.

Yn dilyn, ceir atgofion rhai o'r Swyddogion Datblygu o'u cyfnod hwy yn y swydd.

Atgofion Swyddog Datblygu: Delyth Oswy, 1984–8

Bwrlwm yr Wythdegau yn Arfon (Creu swydd Swyddog Datblygu i Ogledd Cymru)

Trip i'r gorffennol go iawn – atgofion melys iawn! Dwi ddim yn siŵr o fy ffeithiau – ffigyrau o'r cof yn unig ydyn nhw!

Y chwaraewr CD cyntaf ar y farchnad; darganfod AIDS; Margaret Thatcher yn Stryd Downing; ailethol Reagan efo mwyafrif aruthrol yn yr Unol Daleithiau; yr Olympics yn Los Angeles; cost tŷ yn £37,182; a galwyn o betrol yn £1.83.

Coleg y Bala wedi hen sefydlu, a'r Annibynwyr efo Arfon Jones, gweithiwr ieuencid i Gymru gyfan! Llwyddiant y rhain yn ysgogi mentro mwy ym maes ieuencid: cyflogi dau weithiwr i'r ysgolion Sul, un i'r de a'r llall i'r gogledd. Dechreuais i fel Swyddog Datblygu yn y gogledd yn 1984: swyddfa ... desg ... a dalen wag. Ffonio pob capel ac eglwys yn y blwyddlyfrau, a chreu bas data o tua 1,000 o ysgolion Sul yng ngogledd Cymru. Canolbwyntio ar y 250 ysgol Sul yn Arfon. Ymweld efo bocsys o adnoddau, syniadau, gofynion, mentro pethe gwahanol. Dim ond i mi adrodd yn ôl yn weddol gadarnhaol bob chwe mis i'r pwyllgor llywio, cawn law rydd.

Gwersylloedd penwythnos bob gwanwyn yng nghanolfan Rhyd-ddu yn Eryri, yn cyflwyno'r Beibl i blant mewn ffyrdd newydd a ffres; yna, cerdded neu helpa drysor, barbeciw neu rasys yn harddwch Eryri, yng nghwmni cyd-aelodau o'r ysgol Sul. Grwpiau o tua 20 o blant ar y tro – cyn mentro efo mega-gwersyll yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog ar gyfer Cymru gyfan, efo tua 200 o blant bob Pasg. Ac un gwersyll yn unig yng nghanolfan fach yr Urdd yng Nghroesor, lle daeth geneth ifanc o'r enw Nan Wyn efo criw o ffrindiau o'r Waunfawr. Annie Lennox a Phil Collins ar y tâp, a'r haul yn tywynnu – penwythnos cofiadwy!

Gornest chwaraeon flynyddol: pêl-droed pump bob-ochr a phêl-rwyd i ddegau o ysgolion Sul yn Arfon.

Stondin flynyddol yn y ddwy Eisteddfod Genedlaethol efo cwisiau, cystadlaethau, beiros ac adnoddau, a gwasanaethau 'ar ffurf fodern' yn y babell ieuencid. Hybu'r cylchgrawn *Antur* efo Mr A mawr pren i blant siglo arno, a mygiau Mr Antur.

Sefydlu grŵp Canu'n Llon i arwain addoliad anffurfiol efo plant ac ieuencid, ac ymateb i wahoddiadau i gapeli, eglwysi a digwyddiadau amrywiol ar draws y gogledd.

Awst bob blwyddyn byddai wythnos Ysgol Haf yr Ysgol Sul yn y Coleg Diwinyddol, efo Margaret Jones o Chwilog yn cadw trefn.

Lansio cyfres gwerslyfrau ysgol Sul 'Y Gair', ac yna 'Gyda'n Gilydd', efo mwy o weithgareddau a llai o 'gwestiwn ac ateb'. Taflenni gwaith i gyd-fynd â'r llyfrau am y tro cyntaf yn Gymraeg. A hyn pan oedd 'cut and paste' yn golygu siswrn a Pritt Stick, a 'bold' yn golygu Letraset! Cefnogaeth a chydweithrediad Scripture Union yn Lloegr yn allweddol.

A r y ffordd bob mis Medi efo nosweithiau'n arddangos a gwerthu'r gwerslyfrau ac adnoddau, o Bwllheli i'r Drenewydd, o Landudno i Ddolgellau, a sesiynau hyfforddiant i athrawon i rannu syniadau a phrofiadau. Roedd hwn wastad yn gyfle da i gyfarfod ag athrawon yr ysgolion Sul wyneb yn wyneb.

Teithio efo pobl ifanc i wyliau Cristnogol mawr yn Lloegr fel Spring Harvest a Greenbelt, yna gweithio efo Emlyn Dole i gynnal gŵyl Gristnogol Gymraeg debyg: Wigwam yn y Parc, y Bala. Gweithio wedyn efo Emlyn ac eraill i ddatblygu'r Gorlan, caffi 'Cristnogol' 24 awr ar faes pebyll ieuencid y Steddfod Genedlaethol.

Roedd y trip ysgol Sul yn dal yn ddigwyddiad ar galendr yr ysgolion Sul, felly ymweld â Butlins, ger Pwllheli. Ac yn dilyn cyfarfod swyddogol yn swyddfa'r rheolwr, reid ar y Big Dipper i Emlyn a minnau ddathlu trefniant fyddai'n fanteisiol i'r ysgolion Sul unigol, i Butlins, a hefyd yn dod ag incwm i'r Cyngor Ysgolion Sul. Daeth dros 4,000 o blant ysgol Sul i'r 'Diwrnod Butlins' cyntaf yna – mwy nag a feddylion ni erioed! – a 5,500 dros ddau ddiwrnod y flwyddyn wedyn.

Gweithgareddau gwyliau Clwb Ni mewn sawl ardal. Ac atgofion arbennig o sawl hanner tymor efo Trefor a Miriam Lewis yn festri Disgwylfa yn Neiniolen. Ymweld â'r ysgol gynradd o flaen llaw i wahodd y plant; yna, wythnos gyfan o weithgareddau Cristnogol drwy'r dydd bob dydd: storïau, ffilm, taflenni gwaith, crefftau, a chwaraeon a rasys yn y pnawn. Prawf i'r plant fod capel ymhell o fod yn ddiflas, a phrawf hefyd o barodrwydd gwirfoddolwyr i ymroi. A gweithgareddau fel hyn yn help i ambell i ysgol Sul oedd yn stryglo – Maesgeirchen, ymysg eraill.

'Blwyddyn y dathlu': comisiynu mygiau i ddathlu 400 mlwyddiant cyfieithiad William Morgan o'r Beibl i'r Gymraeg. Syniad bach eto'n tyfu'n enfawr, efo archebion am ddegau o filoedd o'r mygiau tsieni gwyn o grochendy Dolwyddelan yn cael eu hanfon fesul bocs ar hyd a lled Cymru. Mae yna rai ar sawl dresel o hyd, gan gynnwys y gegin acw! A law yn llaw â'r mygiau roedd Clwb 400, clwb post oedd, drwy gyfres o lyfrynnau ar ffurf comic, yn arwain plant wrth iddynt ddarllen y Beibl, gan ennill mân wobrau ar y ffordd.

Erbyn diwedd y cyfnod roedd mwy o weithwyr ieuencid wedi cael eu penodi dan amrywiol gynlluniau a threfnwyd penwythnos iddynt oll yng Ngholeg y Bala, i geisio rhannu'r weledigaeth. Rheinallt Thomas, Haines Davies a Trefor Lloyd Jones (trysorydd) oedd y tri gŵr 'swyddogol' yn y cefndir. Ond pe bai'r mentrau amrywiol wedi peri pryder iddyn nhw, roedden nhw'n ddigon doeth i beidio â deud, a bob amser yn mynegi diddordeb ac yn cefnogi. A Gwilym Ceiriog Evans – fy nghyn-weinidog oedd wedi fy nghychwyn ar hyd y ffordd yma – wastad ar gael i annog a thrafod.

Roedd yn gyfnod cyffrous, cyfnod o bosibiliadau diddiwedd, ac o egni diddiwedd hefyd! Anodd credu cyn lleied oedd yna yn yr eglwys ar gyfer ieuenctid yr adeg yna. Mae'n hyfryd gweld datblygiadau a mentrau cyfoes, rhai wedi tyfu o'n hymdrechion (sylfaenol iawn) ni. Fydd popeth ddim yn llwyddo, ond heb fentro, a rhoi digon o raff, does dim cyfle i weld lle daw llwyddiant.

A'r dylanwad parhaol? Tybiaf fod nifer yr ysgolion Sul bellach wedi lleihau. Ond doedd y gwaith byth am yr ysgol Sul fel sefydliad. Roedd yn hytrach am gyfathrebu'r Beibl a neges yr eglwys i blant a phobl ifanc, boed hynny mewn clwb, gwrsyll neu ysgol Sul. Roedd yn swydd gyhoeddus iawn, ac fel canlyniad mae pobl yn dal i ddod ataf a gofyn a oeddwn i'n arfer gweithio efo'r ysgolion Sul. Ond yr hyn sy'n rhoi fwyaf o bleser yw gweld rhai o'r plant a'r bobl ifanc y bues i'n gweithio efo nhw ar y pryd yn oedolion heddiw yn arddel eu ffydd.

Delyth Oswy-Shaw

Atgofion Swyddog Datblygu: Angharad Roberts (1984–7)

Dechrau Pethau yn Ne Cymru

Roedd hi'n gyfnod rhyfedd. Nid yn unig roeddwn i'n newydd i'r swydd, ond roedd y swydd, ac yn wir y syniad am y fath swydd, yn newydd sbon. Nid oedd neb, na fi na'r Cyngor ei hun, â llawer o syniad sut fyddai'r swydd yn datblygu, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r capeli a'r eglwysi wedi clywed am y swydd!

Felly, y cam cyntaf oedd darganfod yr ysgolion Sul. I mi, roedd yr ardal, Caerdydd a'r Cymoedd, yn debyg i eirlys yn tyfu mewn adfeilion. Roedd yna gapeli anferth – gwag. Ac roedd yna ysgolion Sul bychain nad oedd hyd yn oed swyddogion y capeli wedi llwyr sylweddoli eu bodolaeth. Cyfarfod rhywun oedd yn athro ysgol Sul, a chynnig mynd â boc o adnoddau yno i'w dangos. Honno wedyn yn sôn am un arall oedd yn dysgu yn yr un ysgol ddyddiol â hi, ac roedd hi bron yn siŵr fod gan honno ysgol Sul. Ac felly, ffonio o un cysylltiad i'r llall a gwahodd fy hunan yno, gyda fy mocs adnoddau.

Cychwyn gyda'r nos i gyrraedd rhyw dŷ yn un o faestrefi Caerdydd, neu ymhell i fyny un o'r Cymoedd, erbyn tua 8.30 o'r gloch. Dyna pryd fyddai gobaith fod y plant yn y gwely a'r tŷ yn dawel, a Mam yn rhydd i ganolbwyntio. Hithau wedi gwahodd 4 neu 5 arall, a dyna lle fydden ni gyda phaned o goffi a'r boc o lyfrau ac adnoddau eraill ar lawr y gegin fyw. Dechrau bob tro gyda'r boc llyfrau, ac wrth eu dangos (a'u gwerthu) rhyw blethu hyfforddiant anffurfiol i mewn i'r sgwrs.

Rwy'n cofio un noson. Roedd diacon oedrannus wedi dod hefyd, a chyn fy mod yn cael trafod na dangos dim, roedd yn mynnu fy mod yn ffeindio llyfr fyddai o fudd i fachgen ifanc oedd â dosbarth bach o enethod ifanc di-Gymraeg. Wedi hynny, bu raid gwrando ar ddarlith am faint o wastraff amser oedd gadael i'r plant dynnu lluniau a rhyw bethau diwerth fel yna. Ac nid oedd angen Beiblau newydd: onid oedd pentwr o dan y sêl yng nghefn y capel? Dim ond angen chwythu llwch oddi arnynt a byddent yn iawn i'r dosbarth yn eu harddegau. Gadael, oriau yn ddiweddarach, gyda siec anferth yn fy mhoced a phentwr o Feiblau plant mewn lliw a thestamentau dwyieithog, heb sôn am werslyfrau eraill, ar fwrdd y gegin a'r boc bron yn wag. Ond yr hyn oedd yn canu yn fy nghlustiau'r holl ffordd adre oedd addewid yr hen ŵr y byddai pres ar gael i brynu *felt tips* a phapur!

Cyfarfodydd anffurfiol fel hyn oedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Nid oedd llawer o ddiben cynnal cyfarfodydd hyfforddi ffurfiol ar lefel ehangach. Nid oedd gan athrawon yr ysgolion bach newydd yr hyder i ddangos eu hangen ym mhresenoldeb athrawon profiadol yr ysgolion Sul mawr, sefydledig. Ac yn wir, roedd problemau'r ysgolion yn amrywio cymaint fel na fyddai hyfforddiant cyffredinol yn cyrraedd yn agos i'r angen. Roedd un ysgol

Sul â dros gant o blant a dau ddsbarth eisoes ar y llwyfan yn y festri, a lle yn gyfyng iawn arnynt. Ysgol Sul fechan arall yn cyfarfod ar yr oriel uwchben y gynulleidfa yn ystod y bregeth – nid oedd llawer o ddiben dysgu caneuon newydd i athrawon honno! A beth am yr ysgol Sul honno oedd wedi mynd i'r fath gyflwr, a'r adeilad hefyd, nes bu raid i'r gweinidog druan gyfaddef fod llygod mawr wedi cnoi rhai o'r jig-sos roeddwn wedi'u benthyg!

Cefais y fraint o fod ynglŷn â dechrau ysgolion Sul newydd, a chlybiau noson waith hefyd. I ambell un, roedd ymweliad a thŷ'r darpar athro yn ddigon. Rwy'n cofio galwad ffôn gan fam ifanc. Roedd y plentyn hynaf wedi cyrraedd ei phump, ac nid oedd ysgol Sul ar ei chyfer. 'Ac felly,' meddai'r fam, 'rhaid i mi ddechrau un fy hun!' A dyna fu. Cefais adroddiadau o dro i dro dros y ffôn, a bu cynnydd a bywyd dros gyfnod maith yn yr ysgol honno. Trefnu cyfres mis o wersi fyddai'n addas ar gyfer unrhyw nifer o unrhyw oed, ar gyfer pwy bynnag fyddai'n digwydd dod, i athrawes arall. Es yno i gymryd yr ysgol gyntaf, ac roeddwn wedi addo gwneud hynny am y mis. Ond ar ddiwedd y Sul cyntaf dywedwyd, 'Fydda i'n iawn rŵan. Fydd ddim rhaid i chi ddod.' A dyna braf oedd cael hanes yr ysgol honno hefyd yn datblygu. Dro arall cadw fy addewid, a'r mis yn mynd yn fwy na mis gan fod anhawster ffeindio athrawon ar gyfer y niferoedd ddaeth i'r ysgol newydd. A finnau yn y diwedd gyda'r babanod dan oed ysgol – yr union oedran na fu gennyf brofiad ohonynt erioed.

Dechreuwyd clybiau noson waith, a threfnu penwythnosau yn Nhrefeca. Cofiaf un o'r troeon cyntaf. Mynd â dros 30 o blant, gyda chwe oedolyn nad oeddwn erioed wedi'u cyfarfod a heb wybod dim amdanynt, i Drefeca. Wedi chwarae nos Wener a gwersi bore Sadwrn, dyma gyhoeddi y byddem yn 'dysgu adnod' yn y pnaun. 'Be 'di adnod, Miss?' oedd yr ymateb. Ond cyn pen dim roedd timau o blant yn chwilio'r ardd am bapurau o'r lliw iawn er mwyn darganfod – a dysgu – eu hadnod hwy. Bore Sul roedd eu hadrodd yn rhan bwysig o'r oedfa. Ond yr hyn a erys yn fy nghof fwyaf yw'r bachgen bach efo'i bres poced yn ei ddwrn yn sefyll yn y siop eisiau prynu 'llyfr o weddïau'. Bu bron i'r Warden ar y pryd dorri ei galon, ac o'r diwrnod hwnnw ymlaen dechreuodd siop Coleg Trefeca werthu llyfrau plant hefyd.

Rwyf wedi sôn tipyn am y bocs llyfrau ac adnoddau. Cefais gymorth arbennig o lawer cyfeiriad. Cefais berffaith ryddid gan y Cyngor Llyfrau i fynd i'w canolfan yn Llanbadarn a llenwi bocs neu ddau o lyfrau i'w gwerthu neu eu dychwel pan fyddai'n gyfleus. Yna, un diwrnod cefais alwad ffôn. Petawn yn cyrraedd rhyw fan gwaith arbennig cyn rhyw amser neu'i gilydd, cawn lenwi bŵt y car gyda chardbord. Roedd y swyddfa wrthi'n newid trosodd i system ffeilio ddigidol (peth newydd iawn ar y pryd), ac fe gefais stoc dda o gerdyn ar gyfer creu adnoddau. Roedd yna siop lyfrau Cristnogol Saesneg fu'n hael iawn yn rhoi hen daflenni gwaith nad oeddynt bellach yn amserol i mi. Roedd y rhain, yn arbennig rhai'r plant ieuengaf, yn llawn lluniau. Felly, lliwiais y rheini a'u gludo ar y cardbord, a'u torri'n jig-sos. Dwyn syniadau o bob math o gemau bwrdd a chreu gemau i ddysgu hanesion Beiblaidd, ac eraill i annog trafodaeth. Erbyn hyn mae Siop y Gair yn orlwythog o rai cywrain, ond ar y pryd nid oedd y nesaf peth i ddim i'w gael, yn arbennig yn y Gymraeg.

Oedd, roedd yn gyfnod rhyfedd, ond yn gyfnod arbrofol a chyffrous iawn. Cefais brofiadau da (a rhai fel arall) oedd yn gefndir da i mi wrth fynd ymlaen i'r weinidogaeth ordeiniedig. A dw i'n gobeithio fod rhai o'r plant gafodd ysgol Sul, fel eirllys fechan yn yr adfeilion, yn dal i garu eu Harglwydd hyd heddiw.

Angharad Roberts

Atgofion Swyddog Datblygu: Nigel Davies (1989–2006)

Cefndir

Fë'm hapwyntiwyd i'r gwaith o fod yn Swyddog Datblygu i'r Cyngor Ysgolion Sul yn 1989, yn dilyn gyrfa fel athro am saith mlynedd. Roedd yn gam mawr i mi ar y pryd i adael swydd Pennaeth Adran Addysg Grefyddol yn Ysgol

Gyfun Glan y Môr, Porth Tywyn, a chymryd gwaith llawer mwy ansefydlog gyda chyflog tipyn llai. Ond, er fy mod wedi cael blynyddoedd hapus iawn fel athro, roeddwn yn sicr bod Duw yn fy ngalw i waith Cristnogol llawn amser, a phan glywais fod y Cyngor Ysgolion Sul yn chwilio am weithiwr yn y de, doedd gen i ddim amheuaeth nad oeddwn i'n gwneud y penderfyniad iawn yn cynnig am y swydd.

Dechreuais ar fy ngwaith ym mis Medi 1989, a rhoddwyd i mi swyddfa yn y Ganolfan Addysg Grefyddol yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Roeddwn yn rhannu ystafell ar y pryd gyda Mrs Tina Charles, Swyddog Adnoddau'r Ganolfan, a bu Tina yn gymorth gwerthfawr, bob amser yn barod ei chyngor a'i chefnogaeth.

Pwrpas ysgol Sul

Prif bwrpas fy swydd oedd cefnogi a datblygu gwaith yr ysgol Sul. Roeddwn wedi bod yn ymwneud â'r ysgol Sul ar hyd fy oes, ac roeddwn yn ymwybodol o'r cyfraniad gwerthfawr a wnaeth y mudiad hwn at fywyd ysbrydol Cymru. Roeddwn yn ei hystyried yn ffrainc aruthrol felly i gael y cyfle i gefnogi ac arwain y gwaith i'r dyfodol. Ond roedd rhaid cofio hefyd fod yr oes wedi newid a bod dirywiad mawr wedi digwydd ym mywyd ysbrydol ein cenedl, a chyn ymdaflu i'r gwaith roedd yn rhaid i mi ofyn i mi fy hun, "Beth yw pwrpas ysgol Sul yn ein hoes ni?" Roedd yr ateb i'r cwestiwn yn mynd i ddylanwadu ar y ffordd roeddwn yn mynd i lywio'r gwaith am yr 17 mlynedd nesaf.

Un peth oedd yn amlwg i mi o'r cychwyn oedd bod patrwm bywyd, gan gynnwys arferion y Sul a'r math o ddylanwad oedd gan Gristnogaeth ar drigolion ein gwlad, wedi newid mor syfrdanol fel ei bod hi'n amhosib i'r ysgol Sul oroesi yn ei ffurf bresennol. Os oedd yr ysgol Sul yn mynd i gael unrhyw ddylanwad o gwbl ar blant ein hoes, yna roedd yn rhaid bod yn barod i newid o ran delwedd a gweithredu. Rhaid trefnu gweithgareddau cyfoes, deniadol a llawn hwyl. Rhaid i'r hyn sy'n cael ei gyflwyno fod yn berthnasol i fywyd bob dydd, a rhaid bod yn barod i gynnwys gemau a thechnoleg fodern wrth gyfathrebu. Ond wedi dweud hyn oll, roeddwn yn argyhoeddedig mai prif waith pob ysgol Sul oedd cyflwyno hanesion y Beibl ac arwain plant i ffydd bersonol yn yr Arglwydd Iesu Grist. I mi, felly, roedd pwrpas yr ysgol Sul yn ddigwyfnewid, ond roedd yn gwbl angenrheidiol bod y dull o gyflawni'r pwrpas hwnnw yn newid gyda'r oes.

Her

Er mai ychydig o ddylanwad oedd gennyf o ran newid a diwygio'r hyn oedd yn digwydd yn ein hysgolion Sul o wythnos i wythnos, eto i gyd roedd gennyf gyfle i ymestyn gwaith yr ysgol Sul tu hwnt i awr yn y festri drwy drefnu digwyddiadau cyffrous fyddai'n apelio at blant a phobl ifanc. Y nod oedd meithrin perthynas uniongyrchol gyda'r to ifanc a'u rhieni, gan ennill yr hawl i gyflwyno iddynt y newyddion da am Iesu Grist. Ac felly, dechreuwyd ar antur a barhaodd am 17 o flynyddoedd lle bûm yn gweinyddu a threfnu, cyfathrebu a theithio, cynghori a hyfforddi, diddanu ac efengylu.

Gweithgareddau

Yn ystod y blynyddoedd hyn trefnwyd amrywiaeth eang iawn o weithgareddau. Bu rhai dros gyfnod yn unig, tra bod eraill wedi bod yn sefydlog am amser hir. Nodaf isod rai o'r digwyddiadau hynny fu'n fwyaf dylanwadol yn ystod y cyfnod.

Chwaraeon

Does dim dwywaith nad y gweithgaredd mwyaf poblogaidd y bûm yn ymwneud ag ef oedd y cystadlaethau chwaraeon blynyddol. Dyma, yn fwy nag unrhyw ddigwyddiad arall, wnaeth godi proffil y Cyngor Ysgolion Sul yn y de. Roedd pawb fel petaen nhw'n ymwybodol o'r cystadlaethau hyn ac roedd llawer o'r plant yn fy adnabod fel y 'dyn wnaeth drefnu'r chwaraeon'. Cynhelid cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd pum bob ochr yn ystod

hanner tymor mis Chwefror. Trefnid y cystadlaethau hyn ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd hyd at 18 oed, gyda chystadlaethau rhanbarthol yn y dwyrain a'r gorllewin. Yn dilyn hyn oll, trefnid rowndiau terfynol cenedlaethol yn Aberystwyth, pan fyddai buddugwyr rhanbarthau ar draws Cymru yn cael cystadlu am Gwpan Ysgolion Sul Cymru.

Anghofiaf fyth yr hwyl a gafwyd, a'r llawenydd a'r cyffro oedd yn perthyn i'r cystadlaethau hyn – a'r cyfan yn enw'r ysgol Sul! Pa ffordd well oedd yna i ddangos i blant a phobl ifanc fod Cristnogaeth yn ymwneud â phob agwedd o fywyd, ac nid yn gyfyngedig i awr ar ddydd Sul?

Gwersylloedd

Roedd y cysylltiad rhwng y Cyngor Ysgolion Sul a Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog eisoes wedi'i sefydlu cyn i mi ddechrau yn y swydd. Fy mraint oedd adeiladu ar yr hyn oedd yn bodoli a cheisio darparu gwyliau cyffrous fyddai'n denu plant a phobl ifanc i ddychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddai ysgolion Sul ar draws Cymru gyfan yn dod i Langrannog yn ystod gwyliau'r Pasg, ac yn ystod y blynyddoedd cynnar roedd y gwersyll mor boblogaidd nes bod yn rhaid llogi'r ganolfan am bythefnos – wythnos ar gyfer plant ysgol gynradd ac wythnos ar gyfer ieuenctid ysgol uwchradd.

Yn ystod yr haf trefnid gwersyll arall. Am gyfnod cynhelid y gwersyll hwn ym Mhen-y-groes, ger Cross Hands, ac ar ôl hynny ym Mhentywyn. Unwaith eto, roedd y gwersylloedd hyn yn rhai poblogaidd, gyda niferoedd da yn eu mynychu. Cafwyd amseroedd arbennig iawn oedd yn llawn hwyl a chyffro. Ond ymysg yr holl hwyl a sbri oedd yn perthyn i'r gwersylloedd hyn roedd yr efengyl yn ganolog. Bob dydd byddai yna sesiynau Beiblaidd yn cyflwyno'r newyddion da am Iesu Grist, a'r hyn wnaeth fy synnu ar y pryd oedd cymaint o ddiddordeb oedd gan y plant a'r bobl ifanc ym mhethau Duw. Wrth gwrs, roedd yn rhaid cyfathrebu ar eu lefel hwy, ac roedd rhaid gwneud hynny mewn ffordd mor ddeniadol a gweladwy â phosib. Ond yr hyn oedd yn amlwg oedd bod gan y to ifanc syched, nid am grefydd (oedd yn eu tyb hwy yn 'boring'), ond am berthynas fyw gydag Iesu Grist fel ffrind ac achubwr. Clod i Dduw yw'r ffaith fod nifer o'r rhai fu'n mynychu gwersylloedd y Cyngor Ysgolion Sul yn ystod y blynyddoedd hyn heddiw'n Gristnogion o argyhoeddiad.

Cwis Beiblaidd

Gweithgaredd arall wnaeth brofi cryn lwyddiant yn ystod y cyfnod hwn oedd y Cwis Beiblaidd. Trefnid y cwis mewn tri rhanbarth ar draws y de ar gyfer plant / ieuenctid oed cynradd ac uwchradd. Yna, fel uchafbwynt, gwahoddid buddugwyr pob rhanbarth ynghyd â buddugwyr rhanbarthau'r gogledd i rownd derfynol genedlaethol yn Aberystwyth. Byddai bysyrsg electronig yn cael eu defnyddio, a chafwyd amrywiaeth yn y dull o holi er mwyn gwneud yr holl beth mor ddiddorol a chyfoes â phosib. Yr hyn oedd yn wych am y Cwis Beiblaidd oedd bod y rhai oedd yn cymryd rhan wedi gorfod treulio amser yn myfyrio ar ddarnau penodol o'r Ysgrythur, ac o ganlyniad wedi cynyddu yn eu gwybodaeth o Air Duw. Gobeithio bod yr hyn a ddysgwyd yn ystod y blynyddoedd hynny wedi aros yng nghalonau nifer, gan ddwyn ffrwyth er gogoniant i Dduw.

Gŵyl Amgâr

Gan fod chwaraeon yn rhan bwysig iawn ym mywyd cymaint o bobl ifanc, penderfynwyd mynd ati – gyda chymorth tîm o fyfyrwyr o'r Unol Daleithiau – i ddefnyddio chwaraeon fel cyfrwng cenhadaeth. Trefnwyd cystadlaethau pum bob ochr mewn pêl-droed, pêl-rwyd, pêl-fasged a hoci dros gyfnod o dair noson ar gampws Coleg y Drindod, Caerfyrddin, a hysbysebwyd y fenter mewn eglwysi ac ysgolion yn sir Gaerfyrddin. Unwaith eto cafwyd ymateb da. Yn dilyn y chwaraeon byddem yn cael pryd o fwyd ac yna'n cloi pob noson gydag oedfa efengyl wedi'i hanelu at bobl ifanc.

Roedd ymateb y bobl ifanc yn anhygoel. Roedd y mwyafrif ohonynt wrth eu bodd nid yn unig gyda'r chwaraeon ond hefyd gyda'r oedfaon. Roeddent mor wahanol i unrhyw beth roeddent wedi'i brofi o'r blaen, gydag addoliad bywiog, sgetsys, tystiolaeth ffydd, ac yna neges fer wedi'i hanelu'n arbennig at y bobl ifanc. Yr hyn oedd yn arbennig o gyffrous oedd y ffaith fod nifer o'r ieuencid heb unrhyw gysylltiad ystyrion gyda chapel nac eglwys. (Dyfeisiwyd yr enw 'Gŵyl Amgâr' oherwydd y cysylltiad rhwng myfyrwyr o America a sir Gâr).

Trip yr ysgol Sul

Un o'r traddodiadau annatod sy'n perthyn i'r ysgol Sul yng Nghymru yw'r trip blynyddol. Yn y blynyddoedd a fu, hwn oedd diwrnod mawr y flwyddyn pan fyddai pawb oedd ag unrhyw gysylltiad â'r capel yn mynd am ddiwrnod i fwynhau a chymdeithasu. O ran y de, y manau traddodiadol oedd Porthcawl neu Ddinbych-y-pysgod.

Trawsnewidiwyd yr arferiad hwn am rai blynyddoedd wrth i'r Cyngor Ysgolion Sul gynnig opsiwn gwahanol iawn. Roedd Aled Davies, Swyddog Datblygu'r Gogledd ar y pryd, wedi arbrofi'n llwyddiannus iawn drwy drefnu trip Ysgol Sul i Gymru gyfan i Butlins ym Mhwllheli. Bu rhai o'r de yn mynychu, ond wrth reswm roedd yn rhy bell i'r mwyafrif. Aethpwyd ati felly i drefnu trip ar gyfer ysgolion Sul y de i Oakwood, sef y parc paradwys i blant o bob oed. Roeddwn yn medru cael tocynnau am bris arbennig, gyda 50c o elw ar bob tocyn yn mynd at waith y Cyngor Ysgolion Sul.

Roedd yr ymateb yn anhygoel, gyda rhwng 1,000 a 1,500 yn archebu tocynnau'n flynyddol. Trefnid oedfa fer yn y prif bafiliwn cyn bod pawb yn gwasgaru ar hyd a lled y parc. Roedd yr awyrgylch yn wych – y tebycaf posib i Faes yr Eisteddfod – gydag wynebau adnabyddus ym mhob man a phobl yn siarad Cymraeg ym mhob cwr o'r parc.

Nigel Davies

Atgofion Swyddog Datblygu a Chyfarwyddwr:

Aled Davies (1989–2016)

Cefais fy mhenodi fel gweithiwr i'r Cyngor Ysgolion Sul ym mis Mai 1989, a hynny fel Swyddog Datblygu Gogledd Cymru ar y pryd. Roedd y swydd wedi apelio am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith fy mod wedi treulio sawl blwyddyn cyn hynny yn gwirfoddoli gyda Delyth Oswy ar wersylloedd, yn helpu ar y stondin yn yr Eisteddfod, ayyb. Yn fwy na hynny hyd yn oed efallai oedd y ffaith bod yr ysgol Sul wedi chwarae rhan amlwg yn fy mywyd o ddyddiau cynnar iawn yn fy hanes. Mae gen i atgofion melys iawn o fynd i ysgol Sul Aberduar yn Llanybydder pan oeddwn yn ifanc iawn, a'r atgof o gael fy nghodi gan un o ddiaconiaid yr eglwys, Non Evans, yn ei Wolseley yn wythnosol, ac yn gwneud y siwrne ddwy filltir o Lanllwni i Llanybydder. Atgofion hefyd o fod yn nosbarth Anti Wini i ddechrau, a hithau yn rhannu da-da gyda'r plant i gyd. Roedd hi'n berchen ar siop gornel yn y pentref, a bob wythnos roedd yn dod â jar fawr o fferins gyda hi, a oedd bron â chyrraedd y gwaelod, a ni oedd yn cael y gwaith plaserus o'i gwagio. Yn y cyfnod hwnnw roedd pedwar dosbarth ar gyfer y plant yn y festri, a dosbarth yr ifanc a chriw'r oedolion trwodd yn y capel. Yn anffodus, erbyn hyn mae'r ysgol Sul wedi dod i ben yn Aberduar fel yn hanes sawl eglwys arall, a heb amheuaeth gwelwyd newidiadau mawr dros y 40 mlynedd ers i mi fod yn aelod yno.

Pan oeddwn yn y coleg ym Mangor cefais gyfle i wirfoddoli gyda'r Cyngor Ysgolion Sul, a thra oeddwn yn swog ar wersyll y Pasg yn Llangrannog yn 1989 y rhannodd Delyth Oswy ac Emlyn Dole â ni fod y ddau ohonynt yn gadael eu swyddi fel swyddogion datblygu yn y de a'r gogledd, gyda'r anogaeth efallai y dylwn ystyried ymgeisio.

Ar y pryd, roeddwn yn weinidog dan hyfforddiant ym Mhontrhydfendigaid a Swyddffynnon, yn treulio blwyddyn yn cael profiad ymarferol cyn cael fy ordeinio a'm sefydlu maes o law. Felly, wedi dod adre i'r Bont ar ôl y gwerys, dyma lenwi ffurflen gais am swydd Swyddog Datblygu yn *Ne Cymru*. Rai wythnosau yn ddiweddarach daeth cais i fynychu cyfweiliad, a hynny yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ganol Mai. Roedd dau ohonom yn cael ein cyf-weld y diwrnod hwnnw, y ddau ohonom wedi ymgeisio am yr un swydd, sef swyddog y de, tra nad oedd yr un ymgeisydd wedi gwneud cais am swydd y gogledd. Cafodd Nigel Davies a minnau ein cyf-weld, a chofiaf Derwyn Morris Jones, Rheinallt Thomas a'r diweddar Gwilym Ceiriog Evans ar y panel cyf-weld yn fy ngwahodd yn ôl i mewn a cheisio fy mherswadio i ystyried swydd y gogledd, gan bwysleisio manteision cael fy lleoli yn y gogledd yn hytrach na'r de. Cytunais yn y fan a'r lle, a derbyn y swydd. Cofiaf Rheinallt yn gofyn ar y pryd pa mor sydyn y byddwn yn medru dechrau, ac i mi ateb y medrwn wneud hynny'n syth. A dyna fu'r hanes. Cyfweiliad ar ddydd Iau a dechrau ar y swydd ddydd Gwener, gan fod angen mynd â lorri i lawr i'r de ar gyfer gosod stondin yn Eisteddfod yr Urdd. Felly, bedydd tân go iawn: gyrru lorri i lawr i Gwm Gwendraeth a chael aros am wythnos gydag Emlyn Dole, a fu'n barod iawn i'm rhoi ar ben ffordd. Saith mlynedd ar hugain yn ddiweddarach mae'r antur yn parhau, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth aelodau'r Cyngor a swyddogion diwyd dros y cyfnod hwn.

Bûm yn gweithio am ddegawd fel Swyddog Datblygu'r Cyngor yn y gogledd, ac yna, wrth i'r gwaith dyfu, fy mhenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol, ac yna yn Gyfarwyddwr yn 2006. Ar y diwrnod hwnnw ym Mai 1989 penodwyd Nigel Davies yn ei dro i weithio yn y de, ac rwy'n ddiolchgar am 18 mlynedd o gydweithio hapus rhyngom dros y cyfnod hwn. Bu swyddogion datblygu yn y gogledd hefyd dros y cyfnod, sef Llinos Griffiths a Ffiona Edwards, heb anghofio staff gweinyddol pwysig fel Tudur Jones, Elfed Hughes, Dilys Hughes, Sion Evans, John Hughes ac Angharad Llwyd Jones.

Mae llawer iawn o atgofion melys yn aros yn y cof. Yn dilyn yr wythnos bedydd tân yn Eisteddfod yr Urdd, bu'n rhaid dychwelyd yr wythnos ganlynol i weithio yn y swyddfa ym Mangor. Wedi derbyn y swydd, cefais wahoddiad gan gyfeillion eglwysy Pontrhydfendigaid i aros ymlaen fel gweinidog rhan amser, a dyna fu fy hanes am bedair blynedd, gan deithio yn ôl ac ymlaen rhwng y de a'r gogledd.

Pan ddechreuais yn y swyddfa ym mis Mehefin, roedd y lle'n ferw – a hynny am ddau reswm. Roedd ein cartref, sef oddi mewn i strwythur yr Ysgol Addysg a'r Ganolfan Addysg Grefyddol ym Mangor, yn symud. Y dasg gyntaf oedd pacio bocsys a pharatoi i symud popeth o Goleg y Santes Fair ym Mangor i lawr i ganol y ddinas, i ganolfan newydd sbon ar Ffordd Deiniol. Ond yn fwy o ferw ar y pryd yr oedd y trefniadau oedd yn mynd ymlaen ar gyfer trefnu trip ysgol Sul anferth oedd yn digwydd yn Butlins ddiwedd y mis. Roedd Delyth Oswy wedi trefnu diwrnod i ddod â phlant ac ieuentid ysgolion Sul y gogledd at ei gilydd am y tro cyntaf erioed, lle byddai oedfa arbennig yng ngofal band addoli Canu'n Llon, a sioe arbennig yng ngofal Jeifin Jenkins yn y pwnn.

Pan gyrhaeddais yn ôl i Fangor ddechrau Mehefin, roedd negeseuon, galwadau ffôn a llythyron o bob rhan o Gymru yn gweiddi am docynnau ar gyfer y trip. Roedd Butlins wedi rhoi 3,000 o docynnau i ni, ond erbyn cyfrif yr archebion roedd angen dros 6,000 i blesio pawb. Rwy'n cofio'r cyfarfodydd hynny gyda staff Butlins ym Mhwlheli i drafod beth oedd y nifer mwyaf y gellid ei dderbyn, ac yn y diwedd bu i 6,500 o blant fynychu'r diwrnod hanesyddol hwn. Bu'n rhaid trefnu dwy oedfa a dwy sioe gan mai dim ond 2,000 yr oedd y neuadd fawr yn ei ddal. Ni fu'r diwrnod heb ei drafferthion, a bu ciwio difrifol mewn rhai manau oherwydd bod cynifer y bobl yno. Roedd dros 150 o fysiau, a chiwio ar un adeg am dros filltir i gyrraedd y maes parcio.

Ond bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol, a pharhawyd i gynnal y trip am flynyddoedd, gan gyfyngu pob diwrnod i 3,000 o blant, a threfnu dau ddydd Sadwrn. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach roedd yr un trefniant yn weithredol yn y de hefyd, gan ddefnyddio cyfleusterau Oakwood ym Mhenfro. Mae llawer o atgofion melys am y

diwrnodau hynny. Ar un achlysur bu i ni ddarlledu rhaglen fyw ar S4C ar fore Sadwrn – sef *Slot Sadwrn* fel y'i gelwid hi ar y pryd. Cofiaf fod ar reid y Big Dipper gyda'r cyflwynydd, a'r dyn camera wedi'i glymu i du fas y cerbyd er mwyn ein ffilmio. Dwn i ddim beth fyddai gan y bobl Iechyd a Diogelwch i'w ddweud am hynny y dyddiau yma. Roedd y sioeau hefyd yn rhai sy'n aros yn y cof, a Jeifin Jenkins, Rosfa'r Consuriwr, Syr Wynff a Plwmsan ac Ifan Gruffydd ymhlith yr artistiaid a ddaeth i'n diddori. Roedd cael stondin ysgol Sul hefyd yn rhan o'r profiad, a difyr oedd sgwrsio nid yn unig gyda phlant yr ysgolion Sul Cymraeg ond gyda rhai o'r plant a'r rhieni oedd yn aros yn y gwerysll o gyffiniau canolbarth Lloegr a Lerpwl nad oedden nhw'n deall beth oedd y mewnlifiad anferth o Gymru a oedd yn tarfu ar eu gwyliau tawel nhw! Cofiaf un person yn dweud wrtha i, 'Mae hi fel cae Steddfod yma,' a dyna oedd yn braf, cael 6,000 o Gymry Cymraeg ysgol Sul yn cymdeithasu ac yn mwynhau yng nghwmni ei gilydd.

Wedi'r diwrnod byrlymus hwnnw felly ar y Sadwrn olaf ym Mehefin 1989, daeth cyfle go iawn i setlo a chartrefu mewn swydd newydd. Roedd y symud o Santes Fair yn amserol, ac felly roeddwn yn dechrau mewn swyddfa newydd ar Ffordd Deiniol yr un pryd â phawb arall. O'r cychwyn cyntaf, ers i'r Cyngor gyflogi gweithwyr, roedd Rheinallt Thomas wedi gweld budd a mantais o gydweithio â'r Ganolfan Addysg Grefyddol yr oedd ef yn gyfarwyddwr arni. Rwy'n hynod werthfawrogol o'r gefnogaeth honno, ac o'r ymdeimlad ar y pryd o berthyn i ddim. Roedd gan y Ganolfan Addysg Grefyddol siop lyfrau, ac fel swyddog ysgolion Sul roedd yn braf medru cludo'r stoc honno o gwmpas digwyddiadau er mwyn dangos beth oedd ar gael. Roedd yna lyfrgell adnoddau helaeth yn y Ganolfan hefyd, ac roedd ysgolion Sul yn ymwelwyr cyson i fenthyg y llyfrau, posteri, gemau, stribedi ffilm ac yn diweddarach y fideos oedd ar gael i'w benthyg. Mantais arall o fod yn y Ganolfan oedd y gefnogaeth weinyddol. Roedd Carolyn Jones, ysgrifenyddes y Ganolfan, yn wych am gymryd negeseuon pan oeddwn allan, a difyr oedd y sgysiaid dros baned yn ddyddiol yn y cyfnod cynnar hwnnw.

Un o'r pethau gwerthfawr a wnaeth Delyth yn ei chyfnod oedd sefydlu pwyllgor lleol i drefnu gweithgarwch yr ysgolion Sul oddi mewn i sir Gaernarfon, sef Uned Arfon. Pwyllgor byrlymus oedd hwn, gyda rhai fel Ronald Williams ac Elfed Hughes yn hynod weithgar. Roedd yr Uned yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau, gan gynnwys gornest chwaraeon, nosweithiau cwis, Ffair y Gair, cystadleuaeth dawnsio disgo, gwerysloedd yn Rhyd-ddu, a nifer o ddigwyddiadau amserol yn eu tro. Bob blwyddyn deuai dros 600 o blant ac ieuencid i gystadlu yn y gornestau chwaraeon, a oedd yn cael eu cynnal mewn canolfannau chwaraeon ym Mangor a Chaernarfon dros chwe noson! Roedd ysbryd cystadluol iawn yn y nosweithiau hyn, ac mae ambell ffrwgwd a ffræ hefyd yn dod i'r cof. Cofiaf ambell weinidog yn cymryd ei rôl fel rheolwr o ddifri, ac ar adegau yn teimlo'i fod wedi colli cyfle mewn bywyd i fod mewn swydd yn rheoli tîm yn y bencampwriaeth! Roedd y gwerysloedd yn Rhyd-ddu yn boblogaidd hefyd. Bob blwyddyn roedd 6–8 penwythnos yn cael eu trefnu yn hen gartref T. H. Parry-Williams, gyda lle i 24 o blant ar bob penwythnos. Yn ogystal â rhai agored i blant 8–9, 10–11, a 11–14 oed, roedd yna benwythnos i'r Bedyddwyr a'r Wesleaid hefyd. Mae llawer o'r plant hyn wedi parhau'n ffrindiau hyd y dydd hwn, ac yn wynebau a lleisiau cyfarwydd ar radio a theledu – yn gyflwynwyr, actorion a chantorion adnabyddus.

Roedd Ffair y Gair yn ddigwyddiad blynyddol pwysig yn y calendr hefyd – noson o gymdeithasu a chwis Beiblaidd, ac yna gorffen y noson yng nghwmni grwpiau pop lleol fel Beganîfs, ayyb. Tra oedd hi'n hawdd iawn cael 600 i gystadlu yn y chwaraeon bob blwyddyn, tua 100 oedd am fentro i'r nosweithiau cwis Beiblaidd.

Roedd yr holl weithgarwch wedi'i slotio i mewn i amserlen dynn iawn. Roedd y chwaraeon yn y gwanwyn, y gwerysloedd dros yr haf, a'r cwis yn yr hydref. Prysurdeb mawr arall oedd y cyrsiau i athrawon ysgol Sul ym mis Medi. Bob blwyddyn roedd 15 noson yn cael eu trefnu mewn lleoliadau ar hyd a lled y gogledd, a hynny mewn cydweithrediad ag Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol ym Mangor. Ym mhob noson byddai tri grŵp gwahanol yn cyd-gyfarfod, sef yr oed cynradd, uwchradd a'r dosbarth oedolion, lle byddai aelod o staff yr Adran Efrydiau

Beiblaidd yn ymuno â ni i roi arweiniad i faes llafur yr oedolion am y flwyddyn. Byddai'n rhaid cofrestru a chasglu £1 y pen gan bob aelod, a bob blwyddyn byddai dros £500 yn cael ei gasglu dros y 15 noson. Roedd yna werthiant da hefyd, yn arbennig o werslyfrau ar gyfer pob oed.

Pan ddechreuais yn y swydd roedd comisiynu gwerslyfrau yn rhan bwysig o'r gwaith, ond bryd hynny y gweisg enwadol oedd yn cyhoeddi ar ein rhan. Roedd y llyfrau plant yn cael eu cyhoeddi gan Tŷ John Penry a llyfrau ieuencid ac oedolion gan Wasg Pantycelyn. Un rhwystredigaeth gyda hyn oedd bod llyfrau yn mynd allan o brint yn ystod y mis, ac roedd nifer o ysgolion Sul yn methu cael llyfrau ar gyfer y flwyddyn. Yn fuan iawn ar ôl i mi ddechrau yn y swydd penderfynwyd creu cyfres newydd o werslyfrau ysgol Sul, sef 'Gyda'n Gilydd'. Am y tro cyntaf erioed byddai pob oed – o dan 5 i faes yr oedolion – yn dilyn yr un maes, a hwnnw yn ddeunydd yn seiliedig ar werslyfrau'r Scripture Union. Hefyd, am y tro cyntaf, paratowyd oedfa deulu fisol er mwyn annog eglwysi i arbrofi mwy gyda'u hoedfaon, gan geisio denu mwy o blant a'u teuluoedd i fynychu. Siom hyd heddiw yw'r ffaith na fu i'r gwasanaethau hynny gael eu gwerthfawrogi, ac mai prin iawn yw'r plant yn ein gwasanaethau ni y dyddiau hyn. Bu gweithio ar y gyfres gyntaf honno yn brofiad gwerthfawr iawn, gyda'r tîm golygyddol yn cynnwys Elisabeth James, Helen a Delyth Oswy ac Elfed, Tudur a Sam yn gyfrifol am y dylunio. Ers hynny, gwelwyd cyhoeddi nifer o gyfresi gwerslyfrau eraill, gan gynnwys 'Ar y Ffordd', 'Golau ar y Gair' a 'Taith trwy'r Beibl'.

Un datblygiad nodedig efallai dros y cyfnod yma yw'r twf mewn gweithgareddau plant ac ieuencid y tu allan i drefn yr ysgol Sul draddodiadol, a gwelwyd cyhoeddi llyfrau hefyd sy'n addas ar gyfer clybiau plant fel Hwyl Hwyr, a deunydd ar gyfer clybiau CIC ar gyfer ieuencid. Yn fwy diweddar lanswyd *Llan Llanast*, sy'n cynnig model gwahanol o weithio gyda theuluoedd yn yr eglwys.

Yn ogystal â threfnu cyrsiau i arddangos ein gwerslyfrau, mae mynychu'r gwyliau cenedlaethol yn allweddol hefyd. Bob blwyddyn fe fydd ein pabell yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol yn croesawu miloedd o bobl i edrych ar y llyfrau diweddaraf. Yn y cyfnod cynnar roedd gan y Cyngor ei stondin ei hun. Bryd hynny roedd angen i ni gludo ein llawr, ein carped, ein byrddau a'n cadeiriau, heb sôn am y stoc. Erbyn hyn rydym yn rhan o Babell yr Eglwysi, a dros ddegawd bellach wedi mwynhau cael bod yn rhan o fwrwm cydenwadol un o'r pebyll prysuraf ar y maes. Bob blwyddyn byddwn yn croesawu miloedd o blant i'n pabell yn Eisteddfod yr Urdd i beintio wynebaw, gwneud bathodyn a chael lolipop. Cyn gadael, tra byddwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol bydd tua phedair mil o deisennau cri yn cael eu bwyta o fewn y babell yn flynyddol. Mae nifer o atgofion hefyd am wyliau fel Diwrnod i'r Brenin a Gŵyl Teulu Duw yn Llanelwedd, a mentrau cenhadol ledled Cymru rydym wedi cael y ffraind o fod yn rhan o'u trefnu dros y blynyddoedd. Roedd wythnos olaf Awst hefyd yn wythnos arbennig pan gynhelid Ysgol Haf yr Ysgol Sul. Y Coleg Diwinyddol fu'r cartref am flynyddoedd lawer, ac wedi i hwnnw gau symudwyd i Wersyll Llangrannog am rai blynyddoedd.

Bu Llangrannog hefyd yn gartref i'n gwersylloedd Pasg am nifer o flynyddoedd. Yn dilyn sefydlu gwersyll yno yn 1988, fel rhan o ddatliadau'r Beibl Cymraeg Newydd, fe gynhaliwyd gwersyll am y deng mlynedd dilynol, gan gynnwys dau wersyll o ddydd Llun i ddydd Gwener cyn ac ar ôl y Pasg.

Un atgof o fod yn y swyddfa yn ystod y blynyddoedd cynnar oedd y postiadau cyson i ysgolion Sul. Ar y pryd, roedd tua 500 o ysgolion Sul yn y gogledd, a bob tymor roedd yna daflenni'n cael eu postio allan. Yn y dyddiau cynnar, cyn cyfnod y we ac e-bost, roedd yn rhaid llungopïo tomen o daflenni a'u postio'n uniongyrchol i gysylltiadau. Gydag amser, datblygwyd y cylchgrawn *Cysylltiad* – sef bwletin blynyddol i ysgolion Sul oedd yn cynnwys pob math o wybodaeth am ddigwyddiadau ac adnoddau. Gydag amser datblygwyd gwefan www.ysgolsul.com a thudalennau Facebook yr ysgol Sul a Cyhoeddiadau'r Gair.

Dros 25 mlynedd gwelwyd newidiadau o ran swyddfeydd hefyd. Cefais gyfnod byr yng Ngholeg y Santes Fair cyn cael degawd hapus mewn canolfan yn Ffordd Deiniol a blynyddoedd tebyg ar Safle'r George, y Coleg Normal. Yno yn 2006 y daeth ein cyfnod fel rhan o'r Ganolfan Addysg Grefyddol i ben, a symudwyd y swyddfa i Chwilog a'r ganolfan i Dŷ'r Gair ym Mhwllheli.

Dros 25 mlynedd bu'r Cyngor â rhan mewn llawer o brojectau diddorol. Ar droad y mileniwm datblygwyd adnoddau ar gyfer dathlu'r garreg filltir nodedig honno ac i gofio mai dathlu dwy fil o flynyddoedd ers geni Iesu yr oeddem. Datblygwyd llyfr *Storiau 2000* fel cofnod o hanes Iesu, gyda nifer o awduron yn rhannu eu hoff stori o fywyd Iesu. Cafwyd cyfraniadau gwreiddiol gan T. Llew Jones, Wynford Ellis Owen, Martyn Geraint, Mici Plwm, Caryl Parry Jones a llawer iawn o wynebau cyfarwydd eraill. Cynhyrchwyd fersiwn Cymraeg a Saesneg, a llwyddwyd i werthu 15,000 copi. Cynhyrchwyd mygiau a phlatiau hefyd – a gwerthwyd 15,000 o fygiau a 1,500 plât.

Trefnwyd ymgyrchoedd gwerthu llwyddiannus hefyd ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd gwerslyfrau, *Canuon Ffydd* a'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig.

Un o'r breintiau o weithio i Gyngor yr Ysgolion Sul yw bod yn rhan o rwydwaith ehangach. Mae wedi bod yn gyffrous cael cydweithio â'r pum enwad sy'n rhan o'r Cyngor a chefnogi cynlluniau enwadol penodol. Rwyf wedi mwynhau cefnogi nifer o fentrau fel Diwrnod i'r Brenin, Diwrnod Esgobaeth Tyddewi pan wahoddwyd Desmond Tutu i annerch, Gŵyl y Gair a'r Gân gan y Bedyddwyr, a nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant fel Eglwys i Bawb a Gair i Bawb.

Bu cyfleoedd i gydweithio â nifer o fudiadau hefyd. Cyflwynwyd nifer o gynlluniau cyffrous oherwydd yr ymwneud â mudiadau fel Scripture Union, NCEC, Roots a Chymdeithas y Beibl.

Un o'r pethau yr wyf wedi'u gwerthfawrogi'n fawr yw cael fy nghyflwyno i CGMC (The Consultative Group for Ministry among Children), sef rhwydwaith gwaith plant CTBI (Children Together in Britain and Ireland). Cefais gyfle i fynychu cynhadledd yn Birmingham yn 1989 yng nghwmni Rheinallt Thomas, ac rwyf wedi bod yn aelod byth ers hynny. Byddwn yn cyfarfod fel grŵp mewn cynhadledd arbennig ddwywaith y flwyddyn, ac rydym wedi ymweld â phob math o leoliadau ledled Prydain ac Iwerddon, a chael cyfle i ddysgu am yr amrywiaeth o waith plant, llawer ohono'n arloesol, sy'n digwydd yn ein heglwysi. Trwy CGMC hefyd y gwelwyd cyhoeddi'r llyfr canu *Glas Glas Blaned*, cynllun hyfforddi gweithwyr plant Caleidosgob a Dal d'afal. Bùm yn gadeirydd a thrysorydd y mudiad yn fy nhro, a chefais gyfle i wahodd y grŵp i Gymru ar chwe achlysur gwahanol. Mae CGMC hefyd yn rhan o rwydwaith Ewropeaidd, a dros y blynyddoedd cefais fynychu cynadleddau yn Estonia, y Weriniaeth Tsiec, yr Eidal, Ffrainc, Ffindir, y Swistir a Gwlad Belg. Trwy hynny, daeth cyfle i ddod i adnabod degau o gyd-weithwyr gwaith plant ac ieuencid yn y gwledydd hynny.

Trwy CGMC hefyd daeth y cyfle i ddatblygu'r syniad o gyhoeddi cylchgrawn a fyddai'n cynnig syniadau ar gyfer athrawon ysgol Sul ac ar gyfer y sawl a oedd yn arwain addoliad gyda phlant ac ieuencid. Gofynnwyd i Judy Jarvis o'r Eglwys Fethodistaidd a minnau baratoi dogfen drafod ar ran yr enwadau, a braf yw tystio i'r argymhelliad gael ei gefnogi. Erbyn hyn mae 15,000 o bobl yn tanysgrifio i *Roots* yn fisol, a llawer o'r cynnwys ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan yn ogystal.

Rwy'n ddiolchgar iawn am bob cyfle a chefnogaeth rwyf wedi'u dderbyn hyn yn hyn, gan yr enwadau a'u swyddogion, a chan gyd-weithwyr ym maes gwaith Cristnogol ymhlith plant ac ieuencid, boed yng Nghymru, ym Mhrydain ac Iwerddon, ac Ewrop, trwy'r cynadleddau gwahanol rwyf wedi cael bod yn rhan ohonynt. Diolch am gefnogaeth fy ngofalaeth hefyd, lle rwyn cael y fraint o fod yn rhan o dair ysgol Sul ar lawr gwlad. Mae

cymhwysio theori i sefyllfa leol wedi bod yn help mawr ar hyd y daith. Mae gwaith yr ysgol Sul wedi newid yn sylweddol yn ystod fy nghyfnod gyda'r Cyngor, ac erbyn hyn mae'r alwad i fod yn 'genhadol' ac i fentro allan o sefyllfa ddiogel yr ysgol Sul i mewn i fywyd bob dydd ein cymdeithas yn alwad sy'n her wirioneddol i ni fel eglwysi yng Nghymru.

(I unrhyw un â diddordeb, mae'r adroddiadau cyflawn a gyflwynwyd gan y Swyddogion Datblygu dros y blynnyddoedd ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com, fel rhan o gofnodion y Cyngor. Mae'r cyfan hefyd ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol.)